



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CYMORTH ARIANNOL 2017/18



Ar gael mewn ffurfiau eraill ar gais



Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tud 1
2. Ffioedd Dysgu	Tud 2
3. Cyllido eich Costau Byw	Tud 3
3.1 Myfyrwyr o Gymru	Tud 3
3.2 Myfyrwyr o Loegr	Tud 4
4. Gwneud cais a derbyn eich Cyllid Myfyrwyr	Tud 5
4.1 Gwneud Cais	Tud 5
4.2 Derbyn eich arian	Tud 5
5. Ad-dalu Benthyciadau	Tud 6
6. Astudiaethau Addysg Uwch Blaenorol	Tud 6
7. Bwrsariaethau'r Brifysgol	Tud 6
8. Myfyrwyr gyda phlant neu oedolion sy'n ddiabydd yn ariannol arnoch	Tud 8
9. Lwfans Myfyrwyr Anabl	Tud 9
10. Y Gronfa Caledi	Tud 10
11. Grantiau Argyfwng	Tud 11

Gwybodaeth Gyffredinol

12. Banciau a Chredyd	Tud 11
13. Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol	Tud 11
14. Cyflogaeth	Tud 13
15. Gwario'ch Arian	Tud 14
16. Syniadau da i wneud i'ch arian bara	Tud 14
17. Ffurflen Gyllido	Tud 17

Manylion Cyswilt yr Uned Gymorth Ariannol

Rhif Ffôn: 01248 38 3566 / 3637

E-bost: cymorthariannol@bangor.ac.uk

Cyfeiriad: Uned Cymorth Ariannol, Gwasanaethau Myfyrwyr,
Llawr 1af, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg,
Bangor, LL57 2DF

Cyngor ariannol i fyfyrwyr sy'n dod i addysg uwch yn 2017/2018

1. Cyflwyniad

Dylai eich amser yn y Brifysgol fod yn bleserus ac yn werth chweil, ac mae Prifysgol Bangor yn anelu i roi ichi wybodaeth a chefnogaeth a fydd yn eich galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eich profiad yn y Brifysgol. Mae'n arbennig o bwysig nad yw pryderon ariannol diangen yn amharu ar eich amser yma, felly rydym yn argymhell eich bod yn llunio cyllideb fras **cyn** dechrau ar eich astudiaethau. Os ydych newydd adael yr ysgol, dylech wneud hyn gyda'ch rhieni neu warcheidwaid, am fod angen iddyn nhw hefyd ddeall faint fydd angen ei wario.

Tra byddwch yn y brifysgol fe fydd gennych ddwy brif gost:

Ffioedd dysgu; a chostau byw

Gall fod help ar gael i dalu'r ddwy gost. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn dibynnu ar ba ran o'r DU yr ydych yn dod ohoni. Yn gyffredinol, mae'r cynllun cyllid myfyrwyr i israddedigion llawn amser yn cynnwys taliad ffioedd dysgu gohiriedig a chefnogaeth ariannol i'ch helpu chi gyda'ch costau byw o ddydd i ddydd.

Yn anffodus, i nifer dda o fyfyrwyr, mae'r cyfanswm hwn yn annhebygol o fod yn ddigon i dalu eich holl gostau, ac efallai y bydd angen mwy o gymorth ar fyfyrwyr gan rieni/cymar neu o gynilion, rheolwr banc llawn cydymdeimlad ac, efallai, swydd ran-amser yn ystod y cwrs ac/neu yn ystod y gwyliau.

Dylai myfyrwyr o wledydd yr Undeb Ewropeaidd ffonio (+44) (0) 141 243 3570 i gael gwybodaeth am gymorth posibl gyda ffioedd dysgu tra byddan nhw yn y brifysgol.

2. Ffioedd Dysgu 2017/18

Mi fydd ffioedd dysgu ym Mhrifysgol Bangor am y flwyddyn academaidd 2017/18 hyd at £9,000 i fyfyrwyr israddedig llawn amser o'r DU a'r UE.

Bydd ffioedd dysgu **cyrsiau HND** y Brifysgol, a gynhelir yng Ngholeg Menai, yn £7,300 y flwyddyn o fis Medi 2016 i fyfyrwyr o'r DU a'r UE.

Gall myfyrwyr sy'n byw fel rheol yng Nghymru neu'r Undeb Ewropeaidd (y tu allan i'r Deyrnas Unedig), cyn dechrau cwrs israddedig llawn amser, wneud cais am Fenthyciad Ffi Ddysgu o hyd at £4,046 a grant ffioedd dysgu gan Lywodraeth Cymru o hyd at £4,954.

Nid yw'r Benthyciad na'r Grant Ffioedd yn ddibynnol ar incwm cartref. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr sydd wedi astudio ar lefel Addysg Uwch yn y gorffennol gysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru i wirio eu hawl.

Caiff y benthyciad ffi ddysgu ei ychwanegu at gyfrif Benthyciad Myfyriwr y myfyrwyr a'i ad-dalu unwaith y bydd myfyrwyr wedi gadael prifysgol ac yn ennill dros £21,000 y flwyddyn.

Am ragor o wybodaeth am sut y gallwch dalu eich ffioedd dysgu, os byddwch yn dewis peidio gwneud cais am fenthyciad, ac unrhyw ffioedd eraill y brifysgol, megis llety, cysylltwch â'n Swyddfa Gyllid:

Gwefan: www.bangor.ac.uk/finance/index.php.cy

Ffôn: 01248 38 2049

3. Cyllido eich Costau Byw

Bydd y gefnogaeth ariannol sydd ar gael i'ch helpu gyda'ch costau byw o ddydd i ddydd fel rhent neu ffioedd Neuaddau, llyfrau, bwyd, costau teithio ac ati yn dibynnu ar ba ran o'r DU rydych yn dod a phryd y dechreuoch eich cwrs.

Defnyddir incwm trethadwy eich cartref i benderfynu faint o arian fyddwch chi yn ei derbyn - incwm eich rhiant/rhieni neu bartner ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 fydd yn cael ei defnyddio eleni.

Cewch fwy o wybodaeth am ariannu eich astudiaethau ar y gwefannau canlynol:

Prifysgol Bangor: www.bangor.ac.uk/student-services/moneyadvice/index.php.cy

Myfyrwyr o Gymru: www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk

Myfyrwyr o Loegr: www.gov.uk/student-finance

Myfyrwyr o'r Alban: www.saas.gov.uk

Myfyrwyr o Ogledd Iwerddon: www.studentfinancenl.co.uk

3.1 Gall Myfyrwyr sy'n dod o Gymru wneud cais am y Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, na fydd raid i chi ei ad-dalu ar ddiwedd eich astudiaethau, a Benthyciad Cynhaliaeth y mae'n rhaid ei ad-dalu. Bydd y swm a dderbyniwch yn dibynnu ar incwm trethadwy eich cartref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.

2017/18 Tabl Hawliau – Myfyrwyr o Gymru

Incwm Teulu	Grant Dysgu Llywodraeth Cymru	Benthyciad Cynhaliaeth – byw oddi cartref	Benthyciad Cynhaliaeth - byw gartref
£18,370 neu lai	£5,161	£4,342	£2,778
£25,000	£3,347	£5,249	£3,685
£34,000	£1,142	£6,351	£4,787
£40,000	£734	£6,555	£4,991
£50,020	£50	£6,897	£5,333
£50,753	£0.00	£6,922	£5,358

Benthyciad Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd :

£5,191 – byw oddi cartref

£4,019 – byw gyda rhieni

3.2 Gall Myfyrwyr o Loegr wneud cais am fenthyciad cynhaliaeth i helpu i dalu am eu costau byw o ddydd i ddydd. Bydd y swm a dderbyniwch yn dibynnu ar incwm trethadwy eich cartref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16.

2017/18 Tabl Hawliau – Myfyrwyr o Loegr

Incwm Teulu	Benthyciad Cynhaliaeth – byw oddi cartref
Hyd at £25,000	£8,430
£30,000	£7,825
£35,000	£7,220
£42,875	£6,266
£45,000	£6,009
£50,000	£5,404
£60,000	£4,799
£62,187	£3,928

Benthyciad Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd =
£3,928

4. Gwneud cais a derbyn eich Cyllid Myfyrwyr

4.1 Gwneud Cais

Os nad ydych eisoed wedi gwneud cais am eich cyllid myfyrwyr dylech wneud cais fel mater o frys.

Gallwch wneud cais drwy gwblhau un ffurflen gais, sydd ar gael i'w llenwi ar-lein neu gellir ei lawr lwytho papur:

Myfyrwyr o Gymru: www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Myfyrwyr o weddill y DU neu EU: mae manylion eich gwefannau wedi eu rhestru ar dudalen 3.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi derbyn llythyr yn cadarnhau eich cyllid myfyrwyr. Dylech dderbyn y llythyr tua 6-8 wythnos ar ôl i chi wneud cais. Os nad ydych wedi derbyn cadarnhad, argymhellir eich bod yn edrych ar y porth ymgeisio am gyllid myfyrwyr neu ffoniwch Gyllid Myfyrwyr Cymru am wybodaeth ymhell cyn i chi gofrestru yn y Brifysgol.

4.2 Derbyn eich arian

Os ydych wedi gwneud cais am eich cyllid myfyrwyr cyn y dyddiad cau, dylai eich rhandaliad cyntaf gael ei dalu i mewn i'ch cyfrif banc tua 3-5 diwrnod gwaith ar ôl i chi gofrestru yn y Brifysgol.

Rhandaliad 1af 3-5 diwrnod gwaith ar ôl cofrestru yn y Brifysgol

2il rhandaliad ddechrau mis Ionawr 2018

3ydd rhandaliad ar ôl Pasg 2018

5. Ad-dalu Benthyciadau

Byddwch yn ad-dalu unrhyw fenthyciadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu a gewch fel myfyriwr israddedig ar ôl i chi adael prifysgol ar raddfa ad-dalu sy'n ddibynnol ar eich incwm. Mae'r gyfradd llog yn gysylltiedig â chwyddiant (Mynegai Pris Adwerthu).

Cewch ragor o wybodaeth am y broses ad-dalu ar y wefan ganlynol: www.studentloanrepayment.co.uk

6. Astudiaethau Addysg Uwch Blaenorol

Ceisiwch gyngor cyn gynted ag y bob modd os ydych wedi astudio cwrs addysg uwch o'r blaen, yn enwedig os oes gennych eisoes radd anrhydedd. Mae'n bosib na fyddwch yn gymwys am grantiau a benthyciadau.

Cysylltwch â Chyllid Myfyrwyr Cymru neu'r Uned Cefnogaeth Ariannol yma ym Mangor i gael cyngor a gwybodaeth bellach cyn i chi ddechrau ar y cwrs.

7. Bwrsariaethau'r Brifysgol

Fel y byddech yn ei ddisgwyl gan Brifysgol sy'n rhoi cryn bwyslais ar gynorthwyo myfyrwyr, rydyn ni'n awyddus i gynnig help ariannol ychwanegol i fyfyrwyr drwy gynnig nifer o fwrsariaethau.

Mae ein bwrsariaethau prifysgol ar gael ar ben unrhyw grantiau neu fenthyciadau cynhaliaeth a gyllidir gan y wladwriaeth. ASESIR eich cymhwysedd yma yn y brifysgol a chaiff ei seilio ar y cais cyllid myfyrwyr.

Mae hyn yn golygu na fydd raid i chi lenwi unrhyw ffurflenni cais ychwanegol.

Mae **Bwrsariaeth Bangor** yn cynnig help ychwanegol i fyfyrwyr o deuluoedd ag incwm is. Mae eich hawl i Fwrsari Bangor yn dibynnu ar incwm eich cartref:

Os yw incwm eich cartref o dan = £25,000 byddwch yn derbyn yr uchafswm o £1000 ac os yw incwm eich cartref rhwng £25,000 a £40,000 = byddwch yn derbyn £500.

Bwrsariaethau Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg - £250 ar gael yn flynyddol i'r rhai sy'n dewis astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Bwrsariaethau Bangor a'r Bwrsariaethau Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg yn cael eu dyfarnu o 1 Mawrth bob blwyddyn.

Mae **Bwrsariaeth Cychwyn** o £1,000 ar gael i rai sy'n dod i'r Brifysgol o ofal eu Hawdurdod Lleol. Telir y fwrsariaeth hon i fyfyrwyr cymwys yn eu blwyddyn academaidd gyntaf. I wneud cais, cysylltwch â Wendy, Cyngorydd Ymadawyr Gofal y Brifysgol cyn gynted â'ch bod wedi cwblhau'r broses gofrestru ym mis Medi.

Bwrsariaeth Gofalwyr: Mae'r Brifysgol yn ymwybodol y gallai gofalu fod â goblygiadau ariannol, gyda myfyrwyr yn cael costau teithio uwch, neu'n canfod na allent weithio'n rhan-amser mor rhwydd i ategu eu cyllid myfyrwyr. I helpu i ysgafnhau ychydig o'r pryderon ariannol hyn, mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaeth flynyddol i fyfyrwyr sy'n ofalwyr di-dâl, o hyd at £1,000 o Gronfa Galedi'r Brifysgol.

Cewch fwy o wybodaeth neu gyngor am y gefnogaeth a ddarperir i Ymadwyr Gofal neu Ofalwyr trwy gysylltu â Wendy Williams ar 01248 38 3637 neu cymorthariannol@bangor.ac.uk ar unrhyw adeg.

Bwrsariaethau i Adleoli Teuluoedd - hyd at £1,000. Gall adleoli i astudio gyda theulu fod yn ddrutach gyda myfyrwyr yn wynebu costau rhentu uwch, costau gofal plant, etc. Mae'r fwrsariaeth hon ar gael i fyfyrwyr â chyflog trethadwy cartref o lai

na £25,000 ac mae ar gyfer y flwyddyn academaidd gyntaf yn unig.

Bwrsariaethau i fyfyrwyr digartref - hyd at £500. Os nad oedd gennych gartref sefydlog cyn i chi ddechrau ar eich astudiaethau ym Mhrifysgol Bangor, gallwch wneud cais am y fwrariaeth hon i'ch helpu gyda'ch costau prifysgol cychwynnol. Mae'r fwrariaeth hon ar gael yn eich blwyddyn academaidd gyntaf yn unig.

Bwrsariaethau ar gyfer Teithiau Maes - Trefnir teithiau maes gan ein Hysgolion Academaidd i gyfoethogi profiad dysgu ein hisraddedigion. Pwrpas y bwrsariaethau hyn yw annog myfyrwyr i gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny ac i wella profiad y myfyrwyr hynny, yn arbennig felly yn achos myfyrwyr a allai, fel arall, beidio â chymryd rhan oherwydd eu sefyllfa ariannol bersonol.

I wneud cais am un o'r bwrsariaethau Adleoli, Digartref neu Daith Maes, cysylltwch â'r Uned Cymorth Ariannol neu ewch i'w gwefan am fwy o wybodaeth:

www.bangor.ac.uk/student-services/moneyadvice/index.php.en

8. Myfyrwyr gyda phlant neu oedolion sy'n ddibynnol yn ariannol arnoch

Benthyciad / Grant Efen Cymorth Arbennig

Mae cymorth ariannol ychwanegol ar gael i fyfyrwyr a allai fod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau ar sail prawf modd, fel Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol cyn dechrau ar eu hastudiaethau academaidd. Yn gyffredinol bydd hyn yn achos rhieni unigol, aelodau o gwpl pan fo'r ddau ohonynt yn fyfyrwyr llawn-amser ac â phlant dibynnol a rhai myfyrwyr sydd ag anabledd. Pennir uchafswm y Benthyciad neu Grant Cymorth Arbennig gan eich sefydliad cyllido myfyrwyr.

Gall myfyrwyr o Gymru wneud cais am Grant Cymorth Arbennig o hyd at £5,161 **a delir yn hytrach** na Grant Dysgu Llywodraeth Cymru.

Gall myfyrwyr sydd â'u cartref yn Lloegr wneud cais am Fenthyciad Efen Cymorth Ychwanegol o hyd at £1,179.

Bydd swm y Benthyciad neu Grant Efen Cymorth Arbennig y byddwch yn ei dderbyn yn cael ei ddiystyru'n llwyr at ddibenion budd-dal ar sail prawf modd.

Sylwch y gallai derbyn y cyllid myfyrwyr anghywir effeithio'n ddifrifol ar eich hawl i fudd-dal ar sail prawf modd.

I gael rhagor o wybodaeth rhowch alwad neu anfonwch e-bost at yr Uned Cymorth Ariannol neu ewch at wefan eich sefydliad cyllido myfyrwyr - y manylion ar dudalen 3.

Cymorth Ariannol Ychwanegol: Mae yna amrywiaeth o gymorth ychwanegol ar gael os oes gennych ddibynyddion, yn cynnwys **Grant Gofal Plant**, a all dalu hyd at 85% o gost gofal plant cofrestredig a chymeradwy. Ceir **Lwfans Dysgu i Rieni** at gostau'r cwrs i fyfyrwyr llawn amser sydd â phlant dibynnol, a **Grant Oedolion Dibynnol** i fyfyrwyr gydag oedolion dibynnol.

Mae'r grantiau a'r lwfansau hyn i gyd yn cael eu **rhoi drwy brawf modd** a bydd y swm a gewch yn dibynnu ar incwm trethadwy eich cartref. Bydd y sefydliad sy'n eich cyllido'n penderfynu faint o arian y mae gennych hawl iddo ar sail y wybodaeth a roddwch yn y cais am gyllid myfyrwyr.

I wneud cais am Grant Gofal Plant rhaid i chi gwblhau ffurflen ychwanegol - CCG1 - sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan eich sefydliad cyllido

Gall myfyrwyr gyda phlant dibynnol wneud cais am Gredyd Treth Plant gan Gyllid a Thollau EM (HMRC). Gall myfyrwyr sy'n derbyn yr uchafswm o Gredyd Treth Plant (a dim Credyd Treth Gweithio) fod â hawl i brydau ysgol am ddim i'w plant.

9. Lwfans Myfyrwyr Anabl

Os oes gennych anabledd efallai y bydd gennych hawl i gael y Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA). Bwriad y grantiau hyn yw

cynorthwyo â'r costau ychwanegol a fydd gennych efallai o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd. Maent yn cynnwys: lwfans offer arbenigol ar gyfer y cwrs cyfan; lwfans ar gyfer cynorthwywyr anfeddygol; lwfans cyffredinol i fyfyrwyr anabl a chymorth tuag at gostau teithio ychwanegol sydd yn rhaid i chi eu talu er mwyn mynd i'r brifysgol o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd.

I wneud cais am y lwfans hwn mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen DSA1 sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru a fydd yn asesu a ydych yn gymwys ai peidio.

Bydd ein tîm Gwasanaethau Anabledd yn gallu eich cynorthwyo gyda'ch cais am DSA. Yn ddelfrydol, dylech gysylltu â hwy yn ystod y broses ymgeisio, ond mae croeso i chi gysylltu â hwy unrhyw bryd yn ystod eich cwrs.

Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Anableddau i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth:

Ffôn: 01248 38 2032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Gwefan: www.bangor.ac.uk/student-services/disability/index.php.cy


10. Y Gronfa Galedi

Mae gan Brifysgol Bangor gronfa i roi cymorth ariannol dewisol i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol annisgwyl tra'u bod yn astudio. Mae'r Gronfa ar gael i holl fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Bangor.

Rydym yn annog pob myfyriwr sy'n profi anawsterau ariannol i gysylltu â'r Uned Cymorth Ariannol i drafod eu sefyllfa ariannol yn gwbl gyfrinachol gyda staff profiadol cyn gynted â'u bod yn sylweddoli eu bod mewn anhawster ariannol.

Mae'r Uned ar agor 9 – 5 yn ystod yr wythnos waith ac mae wedi'i lleoli ar Lawr 1af Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor.

11. Grantiau Argyfwng



Mae'r Uned Cymorth Ariannol yn gweinyddu Grant Argyfwng Undeb y Myfyrwyr. Mae'r grant yn cynnig cymorth ariannol bach a thymor byr i fyfyrwyr sy'n dioddef caledi ariannol.

Dyfernir y grantiau hyn nad oes rhaid eu had-dalu i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu prynu bwyd tra bod opsiynau ariannol hir dymor yn cael eu hystyried.

Cysylltwch â'r Uned Cymorth Ariannol am fwy o wybodaeth.

Gwybodaeth Gyffredinol

12. Banciau a Chredyd

Mae holl brif fanciau'r Stryd Fawr yn cynnig cyfleusterau arbennig i fyfyrwyr, a'r mwyaf gwerthfawr ohonynt yw cyfleuster gorddrafft di-log.

1. Agorwch Gyfrif Myfyriwr gyda changen sy'n rhoi sylw amlwg i fyfyrwyr, a cheisiwch gael y fargen orau trwy ymweld â sawl banc yn gyntaf.
2. **Ewch ati i ymdrin â'ch cyfrifon yn gyfrifol bob amser.**
3. Gofynnwch am adroddiadau misol i'ch cynorthwyo i gadw golwg ar eich gwariant.
4. Os oes angen benthyciad ychwanegol arnoch, trafodwch hyn â'r banc yn gyntaf, gan y cewch eich cosbi os byddwch yn benthycia heb ganiatâd.

13. Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr israddedig amser-llawn yn anghymwys i hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol a bennir trwy brawf modd yn ystod eu cwrs, gan gynnwys adegau gwyliau.

Mae eithriadau i'r rheol hon yn cynnwys rhieni sengl, rhai myfyrwyr ag anableddau a pharau sydd, ill dau, yn fyfyrwyr a chyda dibynyddion. Os ydych yn gymwys ac yn un o'r categorïau hyn, efallai y gallwch hawlio Cymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Tai, Budd-dal Treth y Cyngor a Chredyd Cynhwysol*, er y gall hawliau newid yn ystod y flwyddyn academaidd.

Os ydych yn gymwys i dderbyn budd-daliadau a bennir yn ôl prawf modd, bydd yr Asiantaeth Budd-daliadau yn ystyried unrhyw incwm a dderbyniwch trwy grantiau neu fenthyciadau dan y prif drefniadau cymorth myfyrwyr. Os ydych yn gymwys i gael Benthyciad Cynhaliaeth, bydd yr Asiantaeth yn cymryd yr arian sydd ar gael ichi i ystyriaeth, p'un a ydych yn ei gymryd neu beidio. Os yw eich cymar yn gymwys i dderbyn budd-daliadau, bydd yr Asiantaeth Fudd-daliadau yn cymryd eich incwm myfyriwr i ystyriaeth yn yr un modd, pan fydd yn cyfrif ei f/ budd-daliadau ef/hi.

Os ydych yn hawlio budd-daliadau a bennir yn ôl prawf modd cyn i chi ddechrau eich cwrs, **mae'n rhaid i chi adael i'r Swyddfa Budd-daliadau** ac i'r asiantaeth sy'n talu eich budd-daliad wybod cyn 31 Awst 2017 eich bod yn mynd i fod yn fyfyriwr, ac mae'n rhaid i chi ddatgan eich incwm fel myfyriwr. Os na fyddwch yn gwneud hyn fe fydd y swyddfa budd-daliadau yn gordalu budd-daliadau i chi a byddant yn hawlio'r taliadau hyn yn ôl tra byddwch yn y brifysgol.

*Nid oes raid i fyfyrwyr llawn amser dalu Treth Cyngor ers mis Ebrill 2004.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â hawl i dderbyn budd-dal, cysylltwch â'r swyddfa sy'n talu eich budd-dal neu'r Uned Cymorth Ariannol.

14. Cyflogaeth

Yn gynyddol, mae myfyrwyr yn gweld yr angen i weithio tra maent yn y brifysgol er mwyn ychwanegu at eu hincwm. Mae'n bwysig sicrhau nad yw gwaith rhan-amser yn amharu ar eich astudiaethau. Yn gyffredinol ni ddylai myfyrwyr weithio mwy na 10-15 awr yr wythnos.



Mae gan y Brifysgol ei swyddfa waith ei hun i fyfyrwyr. Mae hwn yn wasanaeth sydd ar gael am ddim i fyfyrwyr a graddedigion. Yn ogystal â hysbysebu swyddi gwag, safle we yn rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth cyflogaeth, cyfraddau cyflog, oriau gwaith a argymhellir a dulliau chwilio am swydd.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01248 38 2011

Ebost: carers@bangor.ac.uk neu ewch i'r wefan:

www.bangor.ac.uk/careers/students/jobmart.php.cy

Canolfan Gyrfaoedd a Chyfleoedd



Mae'r Ganolfan yn darparu amrywiaeth o adnoddau, cyngor ymarferol a chefnogaeth i'ch helpu i benderfynu'r hyn rydych am ei wneud ar ôl graddio. Gall hynny fod yn unrhyw beth o gael hyd i swydd, mynd ymlaen i astudiaeth bellach, gwneud gwaith gwirfoddol neu gymryd amser i ffwrdd, a rhoi'r penderfyniadau hyn ar waith.

Os ydych yn fyfyrwr blwyddyn gyntaf, hanner ffordd drwy eich gradd, ar eich blwyddyn olaf, neu'n fyfyrwr ôl-radd, mae'n debygol y byddem yn gallu eich helpu mewn rhyw ffordd.

Yn ogystal, os na ellwch ddod atom yn bersonol, gellwch gysylltu â chynghorwr gyrfaoedd gan ddefnyddio ein gwasanaeth e-gyfarwyddyd ar-lein:

www.bangor.ac.uk/careers/students/careersadvice.php.cy

Mae'r Ganolfan hefyd yn cefnogi graddedigion am dair blynedd ar ôl iddynt raddio, naill ai'n bersonol os ydych yn gallu ymweld â ni, neu drwy ein gwasanaeth canllawiau e-bost.

E-bost: gyrfaoedd@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 38 2071

15. Gwario'ch Arian

Mae dysgu i reoli eich arian tra yn y brifysgol yn sgil angenrheidiol i chi nawr ac at y dyfodol. Mae costau prifysgol yn llawer mwy na ffioedd dysgu a llety. Mae'n rhaid ystyried costau eraill fel bwyd, costau teithio, yswiriant, gofynion y cwrs (llyfrau, offer etc.) biliau a gweithgareddau hamdden. Mae'n rhaid i chi ystyried beth sydd ei angen arnoch, faint y byddant yn ei gostio a sut rydych am dalu amdanynt cyn i chi ddechrau gwario eich arian.

Cyn dod i brifysgol mae'n syniad da i gasglu tipyn o arian drwy weithio. Gall costau dechrau mewn prifysgol fod yn ddrud ac, er gwaethaf pob ymdrech, nid yw grantiau/benthyciad myfyriwr pawb yn cyrraedd mewn pryd. Felly byddwch yn barod.

16. Syniadau da i wneud i'ch arian bara

- ✓ Treuliwch amser yn cynllunio – cyn i chi gyrraedd y Brifysgol
- ✓ Rhestrwch eich gwario hanfodol - byddwch yn onest ac yn realistig
- ✓ Ewch ati i ddysgu sut i goginio prydau iach
- ✓ Cadwch gofnod o bopeth rydych yn ei wario - mae hyn yn help i nodi patrymau gwario rheolaidd/achlysurol
- ✓ Cynlluniwch ar gyfer gwariant ychwanegol megis costau dechrau blwyddyn / achlysuron arbennig / pen-blwydd teuluol etc.
- ✓ Talwch am gymaint ag y medrwyd pan gewch eich Benthyciad Myfyriwr, megis rhent am y semester cyfan, ffioedd dysgu a biliau.
- ✓ Prynwch bethau fel llyfrau yn ail law - defnyddiwch siopau llyfrau a'r rhyngwrwyd i chwilio am lyfrau y byddwch eu hangen a gwerthwch unrhyw lyfrau diangen.



- ✓ Cofiwch eich cardiau gostyngiad i fyfyrwyr bydd siopau yn cynnig gostyngiad i fyfyrwros ydynt yn gwneud cais am gardiau gostyngiad neu'n gwneud cais am gerdyn Extra Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am y cerdyn hwn ewch i: www.nus.org.uk/en/nus-extra/Applying. Gall defnyddio cardiau gostyngiad olygu eich bod yn arbed punnoedd ar lyfrau, dillad, teithio, yswiriant, gweithgareddau hamdden ac ati.
- ✓ Agorwch gyfrif banc myfyriwr os nad oes gennych un yn barod.
- ✓ Os oes raid i chi fenthycu arian, yna defnyddiwch gyfleusterau gorddrafft am ddim yn unig.

Defnyddiwch y ffurflen gyllido wag yng nghanol y llyfryn hwn er mwyn eich helpu i lunio cyllideb, neu fel arall, gellwch ddefnyddio ein rhaglen cyllidebu ryngweithiol sydd ar gael ar-lein: www.bangor.ac.uk/studentservices/moneyadvice/index.php.en

Er na ellir gorfodi rhiant/priod i dalu'r cyfraniad tuag at eich costau byw, mae ei werth ariannol yn hanfodol i'ch cyllideb. Os na all eich rhiant/priod dalu'r cyfraniad a asesir (a gyfrifir gan eich sefydliad cyllido myfyrwyr) neu eu bod yn amharod i wneud hynny, dylech ystyried o ddifrif p'un ai y byddwch yn gallu cynnal eich hun yn ariannol dros gyfnod eich astudiaethau.

Felly, yn olaf

Os bydd gennych broblemau ariannol yn ystod eich cwrs, nid ydych ar eich pen eich hun. Anogir myfyrwyr yn gryf i ofyn am gymorth cyn gynted ag y maen nhw'n sylweddoli fod ganddynt broblem, ond cofiwch nad yw byth yn rhy hwyr i ofyn am help. Siaradwch â'ch Tiwtor a / neu anfonwch e-bost / rhowch alwad i'r Uned Cymorth Ariannol yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr am gyngor, gwybodaeth a chymorth ar unrhyw adeg.

Mi wnawn ni ein gorau i'ch helpu, dim ond i chi ofyn.

Ffurflen Gyllido

Incwn (wythnosol / misol)	
Benthyciad ar gyfer costau byw	£
Grant ar gyfer costau byw	£
Lwfans Dysgu i Rieni	£
Grant Oedolion Dibynnol	£
Cyfraniad rhieni	£
Budd-daliadau	£
Credyd Treth	£
Cyflogau	£
Ysgoloriaethau ac Addysgedau	£
Arall	£
Cyfanswm	£

Gwariant (wythnosol / misol)

Llety	
Rhent	£
Trethi Dŵr	£
Nwy	£
Trydan	£
Yswiriant Cynnwys	£
Bwyd	
Siopa bwyd/llaeth	£
Ffreutur	£
Bwyd parod	£

Gofal plant	
Costau gofal plant	£
Addysgiadol	
FFloedd Dysgu	£
Llyfrau	£
Deunydd Ysgrifennu	£
Teithiau Maes	£
Llungopio	£
Costau cwrs eraill	£
Teithio	
Petrol	£
Treth Ffordd Car	£
Yswiriant	£
Atgyweiriadau/MOT	£
Costau teithio e.e. trên, bws ayb.	£
Ariannol	
Tanysgriffiadau	£
Biliau credyd/cardiau siopa	£
Ad-daliadau benthyciad personol	£
Arall	£
Personol - Hanfodol	
Pethau Ymolchi	£
Golch	£
Dillad	£

Personol - Cymdeithasol	
Bil Ffôn	£
Trwydded Teledu	£
Sigaréts	£
Cymdeithasu/ Diodydd	£
Papuru newydd/Cylchgronau	£
Ffioedd aelodaeth â chlybiau	£
Ffioedd gemau chwaraeon	£
Llogi ffilmiau	£
Arall	
(Nodwch os gwelwch yn dda)	
	£
	£
	£
	£
	£

Cyfansymiau	
CYFANSWM INCWM	£
LLAI CYFANSWM GWARIANT	£
GWEDDILL	£